# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

**RHAN 4**

ARDALOEDD CADWRAETH

PROSPECTIVE

*Dyletswyddau sy'n ymwneud ag ardaloedd cadwraeth*

**159 Dyletswydd i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer diogelu a gwella ardaloedd cadwraeth**

(1) Rhaid i awdurdod cynllunio o bryd i'w gilydd lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer diogelu a gwella unrhyw ran o'i ardal sy'n ardal gadwraeth.

(2) Rhaid i'r awdurdod gyflwyno'r cynigion i'w hystyried i gyfarfod cyhoeddus a gynhelir yn yr ardal gadwraeth y mae'r cynigion yn ymwneud â hi neu, pan na fo lle addas yn yr ardal gadwraeth, mor agos iddi ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(3) Rhaid i'r awdurdod roi sylw i unrhyw safbwyntiau, ynghylch y cynigion, a fynegir yn y cyfarfod.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 159 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Croes Bennawd: Dyletswyddau sy'n ymwneud ag ardaloedd cadwraeth. (See end of Document for details)*

## 160 Arfer swyddogaethau cynllunio: dyletswydd gyffredinol sy'n ymwneud ag ardaloedd cadwraeth

(1) Wrth arfer swyddogaeth gynllunio mewn perthynas ag adeilad neu dir arall mewn ardal gadwraeth, rhaid i berson roi sylw arbennig i ddymunoldeb diogelu neu wella cymeriad neu olwg yr ardal honno.

(2) Yn yr adran hon ystyr "swyddogaeth gynllunio" yw unrhyw swyddogaeth o dan neu yn rhinwedd y canlynol—

- (a) Rhan 3, y Rhan hon, Rhan 5 neu Ran 7 fel y mae'n gymwys at ddibenion unrhyw un neu ragor o'r Rhannau hynny,
- (b) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8), neu
- (c) adran 70 neu 73 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 (p. 28) (cynlluniau rheoli ystad).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 160 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Croes Bennawd: Dyletswyddau sy’n ymwneud ag ardaloedd cadwraeth.